## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 21 Tachwedd 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws,<br>R. Llewelyn Jones, Peter Rogers<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Trawsnewid (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 4)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitemau 8,9 a 10)<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell (RF) (ar gyfer eitem 7)<br>Uwch Swyddog Cyllid (DJ) (ar gyfer eitemau 8 a 9)<br>Rheolwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol (AR) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Sgriwtini Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Raymond Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio Trawsnewid Perfformiad ac Adnoddau Dynol), y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd ganddo unrhyw ddatblygiadau i adrodd yn eu cylch heblaw am nodi ei fod wedi mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi a mis Hydref yn benodol i gyfleu safbwyntiau’r Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â’r Gyllideb a Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1, ynghyd â chanfyddiadau'r Panelau Canlyniad Sgriwtini ar Ddiogelu Corfforaethol a Gosod Tai Gweigion. Nodwyd hefyd fod yr

Is-Gadeirydd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd, 2016 i adrodd ar yr ymateb Sgriwtini i'r cynigion ar gyfer Cyllideb ddrafft gychwynnol 2017/18.

## 3 COFNODION CYFARFOD 12 MEDI, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Medi ac 19 Hydref, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o gofnodion cyfarfod 12 Medi, 2016 -

- Mewn perthynas â'r cais a wnaed i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cynrychiolwyr Sgriwtini mewn perthynas â'r Rhaglen Drawsnewid a Byrddau Prosiect ac i gael eglurhad ar y y broses ar gyfer rhoi adborth ohonynt, cadarnhaodd y Cadeirydd fod ffordd ymlaen wedi ei chytuno ers mis Medi ac yr adroddir ar hynny i'r Pwyllgor maes o law.
- Dywedodd y Cadeirydd, a chadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, fod y Prif Weithredwr wedi cadarnhau y bydd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ei waith mewn perthynas ag absenoldeb salwch ar gael i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol pan fydd wedi ei gyhoeddi, a chyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, a bod angen neilltuo amser yn y Rhaglen Waith i'r Pwyllgor roi sylw iddo.
- O ran yr adroddiad ar berfformiad y Gwasanaethau Plant yr oedd y Pwyllgor wedi penderfynu'n wreiddiol y dylid ei drefnu ar gyfer y cyfarfod hwn, dywedodd y Cadeirydd fod adroddiad cynhwysfawr ar y Gwasanaethau Plant y sgil yr arolygiad gan AGGCC bellach wedi ei ymgorffori o fewn y rhaglen ar gyfer y Pwyllgor a gynhelir ar 13 Mawrth, 2017.

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i neilltuo lle priodol yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar salwch.**

## 4 MONITRO PERFFORMIAD : CERDYN SGORFWRDD CORFFORAETHOL CH2 2016/17

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid a oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar ddiwedd Chwarter 2, 2016/17.

Yn dilyn y drafodaeth am y Rhaglen Drawsnewid a'r Byrddau Prosiect yn gynharach yn yr haf a'r ffaith bod y Pwyllgor Sgriwtini wedi nodi ei fod yn ansicr ynghylch ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau fel y cyfeirir atynt o dan eitem 3 uchod, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid fod y Tîm Trawsnewid wedi paratoi dwy lifsiart esboniadol, sef un sy'n ymwneud â'r Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes a'r llall yn ymwneud â'r Bwrdd Rhaglen Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau. Mae'r siartiau'n nodi pwy sy'n gyfrifol am beth yn ogystal â dangos y cyswllt rhwng Sgriwtini a'r Byrddau Rhaglen.

Cafwyd adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad ac Adnoddau Dynol ar berfformiad mewn perthynas â Rheoli Pobl a chyfraddau salwch y Cyngor yn benodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod cyfraddau salwch ar ddiwedd Chwarter 2 yn dangos gwelliant bychan (4.89 diwrnod o salwch am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol) o gymharu â'r llynedd (5.33 diwrnod). Nid oedd y ffigurau a nodwyd yn yr ystadegau absenoldeb salwch eleni yn cynnwys diwrnodau i ffwrdd yn sâl oherwydd profedigaeth (414 diwrnod) a oedd, o'u cynnwys yn y cyfrifiad, yn dod â'r canlyniad i 5.02 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol, sy'n dal i fod ychydig yn well. Felly, er bod y data yn dangos bod y duedd yn gwella, mae'r cynnydd yn araf ac, oherwydd maint y Cyngor, bydd absenoldeb oherwydd salwch yn cyrraedd pwynt yn y dyfodol lle na fydd y sefyllfa'n gwella a bydd hynny'n golygu y bydd yn anodd gwneud cynnydd y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Mae'r

Panelau Her Salwch sy'n monitro sut y cynhelir y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb yn cael effaith, ac mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i herio perfformiad yn gadarn. Er bod perfformiad salwch yr ysgolion yn parhau i fod yn bryder, maent wedi cael canllawiau ar sut i gymryd camau i wella'r sefyllfa. Mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo a pharheir i herio'r Penaethiaid Gwasanaeth i wella perfformiad eu gwasanaethau o ran absenoldeb salwch cyn y ddau chwarter sy'n debygol o fod y rhai anoddaf mewn perthynas â chyfraddau salwch yn y Cyngor.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth yn yr adroddiad a chododd y materion canlynol –

- O ran Rheoli Pobl, 'roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn gynamserol i fod yn siarad am gyrraedd pwynt lle byddai'n debygol y byddai llai o gynnydd yn cael ei wneud o ran gostwng cyfraddau absenoldeb salwch. 'Roedd y Pwyllgor o'r farn bod lle i wella'r cyfraddau ac y gallai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, pan gaiff ei gyhoeddi, gyflwyno syniadau ac awgrymiadau ychwanegol ar gyfer gwella'r sefyllfa. Cydnabuwyd y pwynt hwn gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor nad oes bwriad o gwbl i lacio'r pwysau i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn enwedig y rheini lle mae'r timau yn fach, bydd absenoldeb hyd yn oed dim ond un aelod o staff yn cael effaith sylweddol ar y data absenoldeb salwch a bydd y sgôp ar gyfer gwella felly'n gyfyngedig.
- Nododd y Pwyllgor, er gwaethaf y ffaith y bu gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd sy'n gweithio i'r Cyngor, nid oes gostyngiad cyfatebol yn y cyfraddau absenoldeb salwch fel y gellid disgwyl. Holodd y Pwyllgor felly a oedd y data'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r sefyllfa o fewn y Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y ffigurau a gyflwynwyd mor gywir ag y gallant fod a'u bod wedi eu cefnogi gan ddealltwriaeth lawer gwell o natur yr absenoldebau salwch o fewn y gwahanol wasanaethau a thimau yn y Cyngor.
- Nododd a chefnogodd y Pwyllgor y symudiad i newid y sail ar gyfer cyfrifo cyfraddau salwch, a hynny er mwyn gwahaniaethu rhwng mathau o absenoldebau salwch, e.e. tymor hir, tymor byr, profedigaeth, absenoldeb tosturiol etc fel mesur a fyddai'n helpu'r Awdurdod i gael gwell gafael ar rai o'r materion sylfaenol sydd wrth wraidd absenoldeb salwch.
- Gyda golwg ar Reoli Perfformiad, er yn ymwybodol o'r camau lliniaru a gymerir, nododd y Pwyllgor fod perfformiad yn erbyn Dangosydd Ll / 18b (canran y gofalwyr am oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn) wedi bod yn is na'r targed am gyfnod sylweddol er bod y duedd yn awr yn gwella eto. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gallai fod yn amserol yn awr i edrych eto ar yr awgrym i sefydlu panel i roi sylw manylach i'r mater hwn a nododd ymhellach y dylid asesu perfformiad hefyd o ran ymateb i anghenion gwirioneddol ac nid yn unig o ran cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.
- Nododd y Pwyllgor fod Dangosydd (05) mewn perthynas â Rheolaeth Ariannol (cost staff asiantaeth) yn dal i ddangos yn GOCH a bod y perfformiad cryn dipyn yn is na'r targed. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod Gweithwyr Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant yn ffurfio elfen sylweddol o'r staff asiantaeth a bod eu hangen ar hyn o bryd er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd angen gwneud newidiadau i sut mae'r gwaith hwn yn cael ei drefnu mewn ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd a ddylai ostwng nifer y staff asiantaeth. Mae'r sefyllfa recriwtio hefyd wedi gwella dros yr haf gyda gweithwyr cymdeithasol profiadol a rhai sydd newydd gymhwyso wedi cael eu recriwtio. Bydd y rhai sydd newydd gymhwyso yn graddio ac yn gwbl gymwys i ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol ym mis Rhagfyr gyda staff asiantaeth yn llenwi'r bwlch yn y cyfamser.
- Nododd y Pwyllgor bod y Dangosfwrdd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r cerdyn sgorio a oedd yn rhoi cipolwg o'r cynnydd ar raglenni a phrosiectau trawsnewid ac awgrymodd y gellid bod wedi ychwanegu ychydig eiriau o eglurhad gyda'r lliwiau CAG. Dywedodd y

Pennaeth Trawsnewid mai'r nod oedd osgoi mynd i fanylion ar y rhaglenni unigol ac mai'r bwriad yw y bydd y cynrychiolydd sgriwtini ar bob bwrdd rhaglen yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n mynd rhagddo fel y gall y Pwyllgor wedyn benderfynu a oes angen iddo alw swyddogion prosiect i mewn i roi cyfrif am unrhyw danberfformio e.e. llithriad.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar statws Coch y Rhaglen Trawsnewid Tai Fforddiadwy. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y rhaglen hon wedi cael ei rhoi o'r neilltu oherwydd datblygiadau tai eraill gan gynnwys y ffaith bod yr Awdurdod wedi gadael system gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid tynnu'r rhaglen oddi ar y rhestr os nad oedd ei hangen mwyach.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y Rhaglenni Trawsnewid a nododd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau gael mwy o wybodaeth am gynnwys y rhain e.e. y Rhaglen Drawsnewid Ynys Ynni sy'n brosiect ar raddfa fawr, fel y gall y Pwyllgor benderfynu ar ba lefel y dylid eu sgriwtineiddio. Awgrymodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y dylid cynnwys y rhain fel pwnc briffio ar gyfer yr holl Aelodau yn y Flwyddyn Newydd fel y gall y Pwyllgor wedyn asesu pa agweddau ar y rhaglenni, os o gwbl, y byddai'n dymuno canolbwyntio arnynt i ddibenion sgriwtini.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- **Derbyn a nodi'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yng nghorff yr adroddiad ac o dan baragraff 1.3 yn benodol.**

**CAMAU YN CODI:**

- **Y Rheolwr Sgriwtini i drefnu cylchredeg llifsiartiau'r Rhaglen Drawsnewid i Aelodau'r Pwyllgor maes o law.**
- **Rhaglenni Trawsnewid i fod yn bwnc ar gyfer briffio ar gyfer yr holl Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.**

**5 MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB REFENIW CH2 2016/17**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer ail chwarter 2016/17 ynghyd â'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid nad oedd y sefyllfa yn wahanol iawn i'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1. O ran sefyllfa ariannol 2016/17, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa'r Dreth Gyngor, rhagwelir gorwariant o £660k, sef 0.53% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17. 'Roedd manylion am berfformiad ariannol y gwasanaethau unigol yn y cyfnod, ynghyd â'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un, i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio mai un maes sy'n sefyll allan yw'r Gwasanaethau Plant a bod y gwariant arnynt £299k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar hyn o bryd ac y rhagwelir y bydd gorwariant o £683k (9.18%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei chyfanrwydd. Mae'r gorwariant i'w briodoli i raddau helaeth i gynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a chynnydd hefyd yng nghostau lleoliadau i gwrdd ag anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymryd camau lliniaru er mwyn rheoli gwariant yn y maes. Mae'r camau hyn yn cynnwys mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar ataliol o weithredu mewn perthynas â sicrhau lles plant, a hynny trwy greu Tîm Trothwy Gofal a buddsoddi arian ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant eleni ac yn ddwy flynedd ddilynol fel y disgrifir ym mharagraff 3.3.2 o'r adroddiad. Mae Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn cynnig opsiwn y gellid syrthio'n ôl arno ond y nod yw ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb. Mae profiad y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod sefyllfa ariannol y rhan fwyaf o wasanaethau yn tueddu i gywiro ei hun

erbyn diwedd y flwyddyn, ond mae'r Gwasanaethau Plant yn eithriad lle bu ymyrraeth i reoli'r gyllideb.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oes Cynllun B i fynd i'r afael â'r sefyllfa os bydd y gyllideb wedi gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio mai'r opsiwn arall sydd ar gael yw troi at gronfeydd wrth gefn y Cyngor fel "arian diwrnod glawog". Fodd bynnag, mae profiad y blynyddoedd blaenorol wedi dangos nad oes fawr o angen gwneud hynny.
- Nododd y Pwyllgor y tanwariant o £170k a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a gofynnodd am eglurhad nad oedd hyn ar draul capasiti o fewn yr Adran Rheoleiddio. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y swyddogaeth gynllunio ddigon o adnoddau, yn enwedig o ran materion gorfodaeth ac AHNE. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y byddai'n codi'r mater gyda'r Pennaeth Rheoleiddio ac Economaidd gyda golwg ar gymharu'r gymhareb staffio yn Adran Reoleiddio Cyngor Sir Ynys Môn gyda'r gymhareb mewn awdurdodau eraill.
- Nododd y Pwyllgor, er yr ystytrir bod y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i gwrdd â lefel y gorwariant a ddisgrifir ym mharagraff 7.1 o'r adroddiad, os bydd raid i'r Cyngor hefyd ariannu costau hawliadau tâl cyfartal o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol, yna byddai'r lefel yn disgyn yn agos i'r isafswm a bennwyd, sef £5m . Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn debygol o gael ei hun yn y sefyllfa honno. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Cyngor mewn sefyllfa o orwariant ar ddiwedd Chwarter 2 ac y gall misoedd y gaeaf gael effaith ar wariant yn y gwasanaethau ac mae'r sefyllfa felly'n debygol o newid. Mae'r broses o fonitro'r gyllideb wedi ei haddasu eleni fel bod y rhagamcanion yn cynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor sydd i fod i helpu o ran rhagweld y sefyllfa gyffredinol yn gywirach. Fodd bynnag, mae pethau eraill yn digwydd yn ystod y cwrs y flwyddyn ac yn y broses o gau'r cyfrifon, ac mae pethau eraill a all newid y mae'n rhaid eu hystyried, e.e. llithriad ar brosiectau cyfalaf sy'n golygu bod llai o arian yn cael ei gymryd ar fenthyg sy'n golygu, yn ei dro, fod llai yn cael ei wario ar ariannu'r rhaglen gyfalaf a bod cronfeydd wrth gefn ddim yn cael eu gwario efallai. Yn ogystal, mae yna ymgyrch i wella'r cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor ac mae prosiect yn mynd rhagddo i adolygu'r Disgownt Person Sengl. Y neges sy'n cael ei chyfleu i Wasanaethau yw y dylent barhau i fod yn edrych am arbedion cadw tŷ. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor tua £ 7.4 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ac efallai y bydd rhaid defnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw i gwrdd â'r hawliadau Tâl Cyfartal sydd ar ôl os nad yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfarwyddeb gyfalafu ar gyfer tâl cyfartal a fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod gyfalafu'r costau hynny. Os rhoddir y gyfarwyddeb, yna ni fydd yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol hynny a byddant ar gael i helpu gyda gwariant arall os oes angen. Mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn sefyllfa iach o gymharu â llawer o awdurdodau gan ei fod wedi ymrwymo i neilltuo arian wrth gefn ers nifer o flynyddoedd. Yn y tymor hwy bydd yn anos i wasanaethau weithredu o fewn cyllidebau sy'n lleihau ac, o'r herwydd, mae cael cronfeydd wrth gefn yn bwysig. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro'n rheolaidd a'r cygnor yw i ymatal rhag defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiad pellach ar hyn o bryd o leiaf tan ddiwedd y gaeaf.
- Nododd y Pwyllgor na fydd modd cyflawni £511k (16.70%) o'r targedau arbedion yn 2016/17 ac nad yw £291k o'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y canlyniad a ragwelir oherwydd diffyg gwybodaeth i asesu pa mor gyraeddadwy ydynt, ac os na fydd modd eu gwireddu, byddant yn golygu gorwariant ychwanegol o £291k yn y flwyddyn. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder y bydd arbedion a gynlluniwyd ond na chawsant eu cyflawni yn 2016/17 yn trosglwyddo drosodd i 2017/18 ac yn effeithio ar y man cychwyn ar gyfer cyllideb 2017/18 yn ogystal â gwaethygu'r sefyllfa o ran yr arbedion y byddai'n rhaid eu gwneud yn y flwyddyn honno.

• Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y £2m o hawliadau Tâl Cyfartal y bydd raid talu amdanynt o ddeall bod cronfa wedi ei neilltuo'n benodol i gwrdd â chostau Tâl Cyfartal. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y gronfa wedi ei sefydlu i gwrdd ag elfennau eraill y Cytundeb Statws Sengl. Er bod rhai hawliadau Tâl Cyfartal wedi cael eu talu, mae ail gyfres o hawliadau sy'n werth tua £2 filiwn ac mae'r Awdurdod yn ceisio cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru o ran cyfalafu'r costau. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod cyllid wedi ei roi o'r neilltu fel cronfa wrth gefn ar gyfer y broses Arfarnu Swyddi, ond nad oedd wedi bod yn ddigonol.
• Nododd y Pwyllgor y pwysau parhaus ar gyllideb y Gwasanaethau Plant a phwysleisiodd bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa mewn ffyrdd heblaw drwy ymyrraeth ariannol, e.e. drwy newid dulliau gweithredu a diwylliant. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bod yr Awdurdod yn gweithio'n galed gyda phlant a'u teuluoedd i roi cefnogaeth. Mae Tîm Trothwy Gofal yn cael ei sefydlu ac mae rhai elfennau o'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu trosglwyddo o'r Gwasanaeth Addysg i'r Gwasanaethau Plant. Bydd hyn yn cryfhau'r ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gyda theuluoedd sy'n elfen statudol ond bydd hefyd yn cynorthwyo teuluoedd a thrwy hynny'n galluogi plant i aros yn eu cartrefi. Er na fydd y cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei wrthdroi dros nos, mae'r Awdurdod yn ceisio gostwng y niferoedd yn ddiogel a thros amser.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran y perfformiad ariannol hyd yma fel y nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

## 6 MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB GYFALAF CH2 2016/17

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, er bod y gwariant a broffiliwyd hyd at ddiwedd yr ail chwarter ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn 95%, dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, disgwylir y bydd 95% o'r gyllideb wedi ei wario.
Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â'r Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LILILIA) mai dim ond £0.380m o'r grant oedd wedi ei wario ar ddiwedd yr ail chwarter. Er y disgwylir y bydd y grant wedi ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn, nododd y Pwyllgor, o ystyried lefel y gwariant y byddai ei angen yn ail hanner y flwyddyn ariannol, fod perygl na fyddir yn cyrraedd y lefel gwariant gofynnol, ac y collir y grant. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y Grant yn cwmpasu tri phrif brosiect ac eglurodd eu cymhwyster ar gyfer derbyn cyllid a'r cam yr oedd pob un ohonynt wedi ei gyrraedd. Cadarnhaodd y Swyddog bod pob prosiect yn cael ei fonitro'n ofalus a bod cynlluniau wrth gefn ar gyfer pob un. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) ei bod yn hyderus y byddai'r grant yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Nododd y Pwyllgor hefyd y dylid bod yn derbyn dychweliadau ariannol ar y buddsoddiad a wnaed yn y portffolio mân-ddaliadau erbyn hyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bydd yr incwm rhent o'r stad mân-ddaliadau yn 2017/18 yn fwy na £ 500k ac y bydd £250k ohono'n cael ei neilltuo ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw bob blwyddyn, gyda'r gwarged yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda phrif gyllideb y Cyngor.

**Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**7 LLYFRGELLOEDD YN GWNEUD GWAHANIAETH - PUMED FFRAMWAITH ANSAWDD SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2014/17: ADRODDIAD BLYNYDDOL CSYM 2015/16**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Dysgu a oedd yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015/16 ynghyd ag asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gyfer 2015/16.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell fod yr Adroddiad Blynyddol (Atodiad 2) yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth yn ystod 2015/16 a'i fod wedi ei gyflwyno i MALD ar ffurf ddrafft. Mae'r asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda a'i fod wedi cyfarfod 17 o'r hawliau craidd yn llawn ac wedi cwrdd yn rhannol â'r un a oedd ar ôl fel yr ymhelaethodd y Swyddog. O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, llwyddodd Ynys Môn i gyflawni 4 ohonynt yn llawn a 3 yn rhannol, sydd yn debyg i berfformiad 2014/15. Fodd bynnag, mae MALD yn mynegi pryder am rai meysydd, yn enwedig o ran y safon sy'n ymwneud â chyfanswm nifer y staff sydd ar y sefydliad a nifer y staff proffesiynol fesul pen o'r boblogaeth sydd, fel y mae MALD yn nodi, yn safonau sydd gryn bellter o fod wedi eu cyflawni. Dywedodd y Swyddog fod perfformiad yn gyffredinol debyg i berfformiad y llynedd, gyda rhai gwelliannau amlwg o ran pa mor gyflym y gellir cyflawni'r hyn y gofynnir amdano a chwrdd â hawliau craidd. Mae'r mater staffio isel yn parhau ac mae'n cael ei amlygu gan MALD.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar rai o'r dangosyddion a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Nododd y Pwyllgor fod perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn dda ar y cyfan yn enwedig o ystyried y cyd-destun o orfod cwrdd a chynnal y safonau gydag adnoddau sy'n lleihau. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y sefyllfa staffio sy'n parhau, yn enwedig o ran staff proffesiynol, a cheisiodd sicrwydd ynghylch cadernid y gwasanaeth o ran ei allu i barhau i fodloni'r disgwyliadau arno. Holodd y Pwyllgor a oedd modd recriwtio i ddiogelu rhag dirywiad yn safon y gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Dysgu nad oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ystyried ychwanegu at ei gyflenwad o staff proffesiynol a bod y Gyfadran Dysgu Gydol Oes o dan bwysau i fod mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd, a bod hynny'r un mor berthnasol i'r Gwasanaeth Llyfrgell ag ydyw i wasanaethau eraill o fewn y gyfadran. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cynnig rhai arbedion, a hynny o fewn cyd-destun o wasanaeth sydd eisoes wedi ei gwtogi. Y gobaith yw y bydd yr ailfodelu arfaethedig o gymorth i daclo a goresgyn rhai o'r problemau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015/16.**
- **Nodi asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Blynyddol 2015/16 y Gwasanaeth Llyfrgell a materion sy'n codi.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**8 NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU GOFAL CARTREF**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn nodi'r opsiynau ar gyfer gweithredu newidiadau i'r polisi codi tâl am

wasanaethau gofal cartref. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cefndir, y sefyllfa bresennol, yn ogystal â'r sail gyfreithiol ar gyfer codi tâl am ofal.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad gweledol gan amlygu'r ystyriaethau allweddol a'r rhesymeg dros newid fel a ganlyn:

- Bod pedwar opsiwn ar gael (yn unol â pharagraff 2 o'r adroddiad ysgrifenedig) y bwriedir ymgynghori arnynt rhwng mis Tachwedd, 2016 ac Ionawr 2017.
- Mae gan Ynys Môn bolisi hanesyddol a hynod o godi £15 yr wythnos ar unigolion sy'n derbyn budd-daliadau penodol. Mae hyn yn is na'r gyfradd a nodir yn y canllawiau.
- Bod yr egwyddorion ar gyfer newid yn seiliedig ar gydymffurfio â chanllawiau statudol; yr angen i sefydlu strwythur codi tâl tecach a mwy cynaliadwy fel bod unigolion yn talu tâl priodol, a'r angen i'r Awdurdod adennill y gost o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Bod gofal cartref yn costio £4.45m ar hyn o bryd a bod £462k ohono'n incwm.
- Yn dilyn ymlaen o'r broses arbedion, nodwyd bod angen i'r Awdurdod godi ffioedd priodol am y gwasanaethau a ddarperir. .
- Yn seiliedig ar weithredu dull bandio (y mae angen ei fabwysiadu er mwyn cydymffurfio â pharamedrau gweithredol system gorfforaethol y Cyngor ar gyfer asesiadau ariannol a thaliadau / anfonebau), bydd 68 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gweld cynnydd yn y tâl a godir arnynt a byddai 18 yn talu llai.
- Nid oes a wnelo'r newidiadau arfaethedig ddim â'r cynnydd cenedlaethol y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno yn y tâl uchaf y gellir ei godi am ofal cartref o fis Ebrill, 2017.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y gwahaniaethu mewn cyfraddau budd-daliadau i bobl dros yr oed pensiwn a phobl dan oed pensiwn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod pobl o dan oed pensiwn yn cael eu diffinio'n genedlaethol fel pobl sy'n gallu gweithio a chael mynediad i fudd-daliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. **Gofynnodd y Pwyllgor fod yr esboniad am y gwahaniaeth hwn yn cael ei egluro yn yr ymgynghoriad.**
- Nododd y Pwyllgor, yn ôl y cyfraddau budd-daliadau a thaliadau gwasanaeth a nodwyd ym mharagraff 1.5 yr adroddiad, y bydd rhai defnyddwyr gwasanaeth ar eu hennill o ganlyniad i'r newidiadau a bod hynny'n groes i'r syniad o gyflwyno system sy'n fwy cyson a theg. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hynny'n bosibilrwydd a dywedodd y byddai'r gwasanaeth yn cyflwyno mesurau diogelu i atal hynny rhag digwydd ac y byddai'n diwygio'r tabl yn unol â hynny. **Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r cyfraddau a'r taliadau diwygiedig.**
- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oedd y nod o gyflwyno cysondeb o ran taliadau yn golygu y bydd cysondeb hefyd yn y ddarpariaeth ledled Cymru. Nododd y Pwyllgor bod defnyddwyr yn derbyn 3 ymweliad gofal cartref yn Ynys Môn o gymharu â 4 mewn awdurdod cyfagos. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod dull Ynys Môn yn seiliedig ar 3 ymweliad ynghyd â gwasanaeth pryd ar glud dros amser cinio ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Nid yw hon o reidrwydd yn rheol gaeth a gellir apelio; mae'n dibynnu ar yr asesiad o angen yr unigolyn.
- Nododd y Pwyllgor gyda phryder y bydd cynnydd yn y tâl o £15 i £60 yr wythnos yn siŵr o gael effaith ar y rheini fydd yn gorfod talu ac y gallai arwain at galedi mewn rhai achosion. **Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu pumed opsiwn at y tabl o opsiynau ar gyfer ymgynghoriad ym mharagraff 1.6 - sef cynnydd graddol o 33% y flwyddyn dros 3 blynedd a fyddai'n lliniaru ymhellach effaith y cynnydd ar ddefnyddwyr gwasanaethau.**
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cyfnod ymgynghori yn ddigonol i fedru ymgysylltu gyda'r holl ddefnyddwyr a fydd cael eu heffeithio ac a fyddai'n eu galluogi i lawn sylweddoli

effaith y cynigion ac ymateb iddynt. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod yr amserlen arfaethedig yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac ystyrir ei bod yn rhesymol a'i fod yntau hefyd, fel swyddog proffesiynol, o'r farn ei bod yn amserlen resymol.

- Roedd gan y Pwyllgor amheuon difrifol ynghylch cychwyn proses ymgynghori ar daliadau uwch, nid yn unig yn y cyfnod yn union cyn y Nadolig ond, yn fwy arwyddocaol na hynny, cyn y cyhoeddiad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru am gynnydd na wyddys ei faint hyd yma yn yr uchafswm o £60 y gellir ei godi. Byddai hyn felly'n golygu y byddai'r cynnydd ar gyfer defnyddwyr sy'n talu £15 yr wythnos ar hyn o bryd hyd yn oed yn fwy, gan gael mwy o effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau na fyddant wedi cael eu rhybuddio ymlaen llaw. **Argymhellwyd yn gryf bod yr ymgynghoriad hefyd yn egluro bod newid pellach yn y tâl uchaf y gellir ei godi (£60 ar hyn o bryd), o bosib i £70, £80 neu £90, yn debygol o gael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod angen gwneud penderfyniad ar bolisi codi tâl yr Awdurdod am ofal cartref, a hynny er mwyn cyfrannu at y broses o osod y gyllideb; sut bynnag, nid oes unrhyw arwydd o ba bryd yn union y gallai Llywodraeth Cymru wneud ei chyhoeddiad ar y cynnydd yn y tâl.
- Nododd y Pwyllgor fod yna risg y gall y rheini y mae eu taliadau yn codi o £15 i £60 yr wythnos yn dewis peidio â thalu ac y gallant dynnu'n ôl o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl ac y byddai gan hynny oblygiadau posib i'w lles.
- Nododd y Pwyllgor nad ymgynghorwyd ynghylch y newidiadau gydag Eiriolydd y Cyngor dros Bobl Hŷn.

**Penderfynwyd cytuno bod Swyddogion yn ymgynghori am gyfnod gyda'r defnyddwyr y bydd yr opsiynau a gynigir yn effeithio arnynt cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Pwyllgor Gwaith yn amodol ar yr isod -**

- **Ychwanegu pumed opsiwn at yr opsiynau a gynigir, sef cynnydd graddol o 33% y flwyddyn dros dair blynedd**
- **Bod yr ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd pellach gan Lywodraeth Cymru yn y tâl uchaf y gellir ei godi i £70, £80 neu £90 o bosib.**

**CAM GWEITHREDU: Y Pwyllgor i gael copi o'r taliadau diwygiedig cyn rhyddhau'r wybodaeth ar gyfer ymgynghori.**

## 9 NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU TELEOFAL

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn nodi'r opsiynau ar gyfer newid y polisi codi tâl ar gyfer gwasanaethau teleofal.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad gweledol ar y sefyllfa bresennol a'r rhesymeg dros newid. Dywedodd y Swyddog, o ganlyniad i wahanol resymau hanesyddol, fod amryw o daliadau'n gysylltiedig â Gwasanaethau Teleofal a bod angen ailiniad graddol i sicrhau tegwch a chydraddoldeb i bob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer y ffioedd cyfredol yn gymhleth ac mae'r Gwasanaeth o'r farn y dylid safoni ffioedd i sicrhau tegwch a lleihau'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r system gyfredol.

**Penderfynwyd cytuno bod Swyddogion yn ymgynghori am gyfnod gyda'r defnyddwyr a effeithir ynghylch y pedwar opsiwn a amlinellir yn yr adroddiad cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Pwyllgor Gwaith.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**10 EITEM ER GWYBODAETH - Y GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL**

Yn unol â’r cais a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym Mawrth 2016, cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn amlinellu'r sefyllfa a'r cynnydd gyda’r Rhaglen Drawsnewid o fewn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu. ‘Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau hyd yma sydd o fewn cwmpas y prosiectau unigol a restrir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad, ynghyd â'r cynllun gwaith i’r dyfodol ar gyfer pob un o'r prosiectau a'r gweithgareddau allweddol yn eu sgil.

Awgrymwyd y dylid rhoi proffil uwch i’r Gwasanaeth Anabledd Dysgu o ran busnes y Pwyllgor hwn ac fel maes ar gyfer sgriwtini ynddo’i hun. Cytunwyd y dylid ei argymell fel pwnc i gael sylw mewn sesiwn friffio i Aelodau yn y Flwyddyn Newydd a bod y Pwyllgor yn penderfynu wedyn a ddylid ei dilyn i fyny fel maes ar gyfer sgriwtini.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel datganiad sefyllfa ar y Gwasanaeth Anabledd Dysgu a chymeradwyo'r datblygiadau arfaethedig o fewn y gwasanaeth.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i gael ei gynnwys fel pwnc ar gyfer sesiwn friffio i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.**

**11 EITEM ER GWYBODAETH - BLAENRHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill, 2017.

Nododd y Pwyllgor bod nifer o eitemau sylweddol ar raglen y cyfarfod a gynhelir ym Mawrth 2017. Dywedodd y Cadeirydd y gellir adolygu’r sefyllfa yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, 2017 ac y gellir trefnu cyfarfod arbennig os bydd angen.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**